

ASGELL AMGEN

wrth iddi nosi
efa ac adda
labro, un-nos
HEIMAT HIRAETH
Dinas Emrys
TARANTA
GELYN
TRI PHETH
Can Ymateb
adda Taranon
MARWNAD /PERERINDOD
teyrnged i fardd
~~maglehwileam~~gywydd
asgell amgen

RHYS TRIMBLE

wrth iddi nosi

awst 2011- rhifyn i'w bastynu

tywyllwch!
tawelwch!

dewch dywyllwch, dowch dawelwch
dewch lech, ac awen y llwch
dewch yn awr wrth iddi nosi
dewch i'r cwm gwna enaid i gosi!

anialwch y cerrig, paradwys unig dderyn
meini'n bysedd afaelir ffurfafen
cwm afrac, ysbryd idwal
gwêl fagddu, dynoliaeth ar-chwâl

tywyllwch!
tawelwch!

efa ac adda

ac adda dilynodd efa trwy ddisgyrchiant cnawdol
Liltih eu cariad gyntaf o yn dduwes amgen
a lledrith blodeuwedd ochr draw'r drych
creuwyd o'r un pridd a phob anifail
lliw llun rhesi uwch
angel esblygodd natur

*

ond yma'n gerddi'r cread
a blew ei breichiau'n unionsyth fân, cysglyd
cysegr ar sofa a braich chwith

pelydr haul a feiddiodd ein hegni
cwffir ein casineb gan dywod-duwdod
asyn adda mor dlos â chig â phersawr

peiriant â phlant, gosteg ein cwsg, ac ar ôl, 'mond y
gwrthrych eu hun - cariad.

labro'

rhibadi rhes y system les

yr hau a'r cnydu

yr egin a'r rhwydni

30 y dydd, arogl bunnoedd

gwarth gwrth club root

a 'mysedd budron

un nos ...

ma' na chomin yng nghalon Bethesda

twll y gwyrddni a'r teg o'i amgylch

llech ac ymbaréls, paraplue, yma

nos oleua'r dydd - tew neu gewyn bawd

lleuad lles ai llachar los

HEIMAT, HIRAETH

BERLIN 2012

NI RWYGWYD Y MIRI RHWNG Y MURIAU
YMA'N ORIEL Y DWYRAIN, KOTTIBUSSER TOR
CLWYDI'R DRE LLE TARFODD CLUSTIAU'R G.D.R.
Y BRODYR YN CYD-DDATGELI O DAN MWGWDAU
CADWYNI AMLWG A CHUDD, GYDA CHOLUR
LLOFNODWN GERRIG A MARMOR
DUR YR U-BEDOL BAHN CYLCHFEINIAIST NI
YN HAMBYGIO DIFLASTOD DAU GARIAD

YNG NGLŴM A'R CERRIG LLIW
AR DIRWEDD PENSIL BYS POB CENHEDLAETH
A'R LLECH AC ADFAIL WEDD
A'R DINASWYR YN FWY PENIOG EU CALONNAU
MWY LLYFN EU DYRNAU A DROS EU GILY'
SGLEFRIANT YN DDIWYLLIEDIG DROS DDIWYLLIANT
X-BERGER, ISTANBUL BEICIAU'N LLU
A WASTADEDIG Y FFYRDD, BREICHIAU A
RHIFIANT, HENACH CLEISIAU, CÔR O LEISIAU
YN DAWEL, BERLIN 24/7: LEBEN.

DINAS EMRYS:

y fedwen arian

fu llaw eraint llyfn
sugn
di-baid deugri o safn
di-saib

alw dreigiau dros ddaear garw

o destun franddu at lafn eiry

dinas domen
ac anrhydedd
y brig

eirlaw

/ffugdinas
neu ddinas o faith
tŵr yn hytrach
gŵr

Gwrtheyrn diaberthir Emrys

Talafon Cwellyn & Craflwyn,

Cwm y bleiddiad
a Sugyn-
/colled /lleddf

gweddi am bennill
neu ddelwedd

hwyrach meini cyfrwys

cytbwys cywir.

TARANTA

LLYTHYR / MANIFFESTO BACH

A9459CFBEVAN

annwyl cyfaill na cyfarfud,

Heddiw chwistrellwn ein chwerthin dros strydoedd Merthyr
ac mewn ceg dur fu cân iachus o goffi du gwrthryfel
a cholled a choffau a thynged tirionwyd

yr ydym ni eich cyd-gysgwyr wedi ein gwleidyddio
gan wasgedd, gan gymylau digosteg trydanol
mellt a dringir esgyrn cefn at bwyll a ddwyseir gan daranau

caneuon gwerin a llythyrau meirw, swyddfa wag lle casglir marwnadau
blas be sy'n wirion wir / terfysg pwsî / cathod tew
oes oesoedd Buddug a'i hetifeddiaeth

traws hewl a bola haul o garu cymuned, unben heb bennaeth
o dan dre, dan ddol deigryn damcaniaeth - yma'n deiseb o un

radical rhydd

a fu'i thewi

wefr atomig

dwrn a'i

gola' dan glo

cellweiria'r cell

conshi y

peiriant saetha'

atgof di-dawel

atom.

GELYN

"Cân: trwy ailadrodd magodd pŵer"

Y GELYN FU'N GELAIN

YN GANDRYLL AC YN GYWRAIN

Y SYSTEM BYTH CYFYNG

A'R CYFALAF YN Y DWYRAIN

PROTESTGAN NEU WAWD

Y CRYCH NEU'R LLYFN

Y GALON DROS Y LLYGAD

TOSTURI DROS RYM

HOLLTWN EIRIAU / CHWYLDRO MEDDWL

PLETHWN BENNAU / GOLLWNG ENW

PWY SYN' GELYN?

PWY SY'N GELAIN?

PWY SY'N GELYN?

TRA FO'N GELAIN?

CYFARWYDD CWFFIR ESTRON
GWLEDIG ERBYN TLODION
Y PEIRIANT PLESER LLYGRA ENAID
GWASAIDD EIN BRODORION

LLU ELYNION MEWNOL
GELANEDD NEU'R BYW
MARWNAD AC ATGYFODIR
O LWCH Y CYNHEBRWNG

Y GELYN SY'N GELAIN
Y TRANNOETH FU ADENNILL
ALLTUD CRAIDDOL
Y BRADWR YSBRYDOL

PWY SY'N GELYN?
TRA FO'N GELAIN?

LLAWEN EIN LLUNIAETH
ARIAN A RHYDDIAITH
YN FOETHUS AR MOGADON MEGIS
GWAGLE MOESOL EIN PRESENNOL
OES-OES OESOL

TRI PHETH

TŶ:

PAN FU TŶ WEDI EI THIRIO NI FEDRITH HEDFAN

LLECHBLU LLIWGAR LLENNI ADENYDD

IAWN, ASGELL AMGEN

TŶ BACH WEN O FEWN BRON

LLYFN, CWYR RHWNG BYSEDD

GEIRIAU:

NI FEDRANT EI GOLEUO HEB LEFARU

RHWNG TAFOD A GWDDW

NID LLYFN OND GARW

A HEFYD

TORTH:

SURDOES BEUNYDD NI

LLEDA HEB LYFNDRY CYFFWRDD

CRASU, GWRES CALON

HEULI DDEFNYDD.

CAN YMATEB

**"I had a winter's summer's baby
now I tan on snow" – Stephanie Finnegan**

llygaid & thrwyn

goresgyn esgyll

cynffon yr hydref

pechant y diwedd glo

bu tymhorau a thannau

dannodd y delyn

ddoe, y plisgyn coed

torrodd treithawd hafn

tirwedd torcalon

yr erw wledig

treiglo trwy oes a fu

lliw haul ar eira gwau

fy ngwaed esgyrn a chyrn

rhyw foncyff

llwynog yn disgyn

trwy ddyn a rhewodd.

Adda / Taranon

I

mae'r adda dan gadarn goncrit
geirdarddiad y llif; twf tonnau

fi, penswigen ar fws— chwarter cwsg
gammy braidd - sbio gwnaeth 'jamp'
ysgawen o blith wydr

ymlith

plisgyn 'ieith'

dadgladdaist y gyffelybiaeth o'r "badau a dynnir
gan geffylau"

y gair dan
y gair

llinellau aneglur
yn ngaeffos
fy ngarddwrn

caethiwyd gwaed glesni
ac

ymbelydredd

trenau yn suo
dros glawdd unsyth-rydd
is-fyd
danddearfyd

dim ond

ansoddeiriau

sych ar gwllithder

d'enw

ll

gwasgarwn synnwyr

mewn corneli cudd

y gogledd

gwela' gambr

maen a cherrig

dŵr yn drwm ar y glust

sibryda' geiriau disymf -

llanw ar enw cytbwys

dwy 'a '

dwy 'dd'

wnaeth bechu am ein siopa
neu ein pechaduriaid, âf adra
o hel trugareddau

adda drawsffurfiwyd at
Taranon ymhen draw
braich dur

tre heb afon, arallfydol
di gallon pensaernïaeth

Mae'r Adda dan gadarn goncrit
geirdarddiad y gwir; tŵf tonnau.

PERERINDOD / MARWNAD

DROS DONFEDD DAETH MARWOLAETH

AUR Y SEIRFF HIRGWYNT Y TRÊN

FU YMESTYN TUA'THRE, TUAG ADRE

AR ÔL Y DAITH TUEDD TŶAIDD

MAE POB PETH A GWELLHÂI'R DYN YN DILYN

SEIBIANT CABLU, COLLED Y DDAWNS

Y CÂN Y CYSTADLU

DROS DONFEDD DAETH MARWOLAETH

AC FE WINGIR O'R CWRLID CYMYLOG

DI-ALW'R LÔN, Y RHEWL, STRYDOEDD TROEDNOETH

ATGO' CALEDMELYS A LLEISIAU

DROS DAITH TREIGL TRUGAREDDAU BU FARW

ATSAIN LLWYBRAU NERFOL, HEN LAW PWYNTIODD

TRAWS-HANESYDIAETH

DROS DONFEDDDAETH MARWOLAETH

teyrnged i fardd

gwaeddi dros ddistawrwydd anealldwriaeth
mae 'na law yn ysgrifenni'n ddi-fwlch, moetho papur

nid nôs na dirgelwch ond anghysbell tudalen
ffug-iaith pensil chwerthin, croenddu, pin ag inc

ddoe llearu llong ar foroedd, *strona*
sillafu cerdd a fu'n ungair- efelychodd ganser

trodd yn llyfr, neu'n gyfres o lyfrau - arbrofodd
gyda darlunio croen-noeth – dawnsio dros marjîn

a margarîn, llafariad fenthyg o ramadeg
mam-gu, pallu deall eiambig pedwareg - methu

darfod neu gwblhau gradd - cododd pwynt call mewn
dosbarth ysgrifenni creadigol- unwaith. aeth yn athro...

maglehwilean gywydd

grisial yw, grâs a loyw
na chylllell hen â chell â llw
cleddyf dur a claddir dôn
dur wnawn o dan daranon
cul ei wedd colled oedd
dacw ef na doc o efydd
ci a chath yw cwch a thŷ
ta' llwch brae tawelwch obry
mynydd elw môn a'i dalo
iâr gwta'n ragso'r to
a'i mydr yw mêr drysu?
nwyfre llo nifer llu
cogimwrch, cig a gwrach
man y sêr a mynned y sach
mewn awyr tân a mwynir tôn
y gweilch yna'n deilchion
na chawr y llawr a'i llonydd
llawn ffos aurlef llanw bydd
daw rhech a rhoch y porchell
dwylaw buwch dyled bell...

asgell amgen

hir angen y bur anghysbell; cuddfan
diacen a ddof di-asgell
grud tywylli neu gred well
nid gaol - law ar gawell

asgell / paladr amgen

hir angen y bur anghysbell; nyth fran
cudd thyfir dadansoddi gwell
rwygo m^êr yw f' argymell
baich byd cyw o fewn cell

...